

Tasg 1

“LLIWIAU LLACHAR”

1. Gwnewch yr arbrawf gyda’r geiriau lliw ac amserwch pawb yn y dosbarth. Pwy fydd y cyflymaf? Beth am greu rhestr hirach o’r geiriau lliw?
2. Llenwch y grid isod yn unigol ac yna cymharwch eich atebion gyda phartner.

LLIWIAU	MAE'N GWNEUD I MI FEDDWL AM...	MAE'N GWNEUD I MI DEIMLO'N...
COCH		
GWYRDD		
GLAS		
MELYN		
OREN		
PORFFOR		
PINC		
DU		

3. Beth am fentro ysgrifennu pennill eich hun? Dilynwch y patrwm 5 llinell:

Ll.1 – enw emosiwn

Ll.2 – lliw fel beth?

Ll.3 – mae’n swnio fel beth?

Ll.4 – pryd mae’n digwydd?

Ll.5 – ailadroddwch enw’r emosiwn

4. Gwrandewch ar un o'r traciau cerddorol sy'n cael eu hawgrymu.
Ysgrifennwch adolygiad byr gan ddefnyddio'r ddogfen ychwanegol i'ch helpu.